

Strategaeth Hygyrchedd Digidol

Adolygydd ddiwethaf: 15 Rhagfyr 2021

Cyflwyniad

Dyma Strategaeth Hygyrchedd Digidol Prifysgol Aberystwyth. Dymunwn i bawb sy'n defnyddio ein gwefannau a'n systemau ar y we allu canfod, darllen a deall ein cynnwys. Mae gwneud gwefan neu system ar y we yn hygyrch yn golygu sicrhau y gall cynifer o bobl â phosibl eu defnyddio, yn cynnwys y rheiny â nam ar eu golwg, eu clyw, eu symudedd, eu meddwl a'u dealltwriaeth. Bydd y Brifysgol yn gweithio tuag at wneud ein gwefannau a'n systemau ar y we yn hygyrch i bob defnyddiwr.

Effaith Strategol

Un o brif werthoedd y Brifysgol yw cynwysoldeb. Mae darparu gwybodaeth hygyrch ar ein gwefannau a'n systemau ar y we yn galluogi pawb i'w defnyddio, beth bynnag fo'u hanabledd neu eu nam. Bydd hyn yn hyrwyddo'r "natur agored a'r haelioni ysbryd" a'r "ymdeimlad cryf o gymuned" yr ydym yn enwog amdanynt.

Un o amcanion craidd y Brifysgol yw "galluogi myfyrwyr i ddatgloi eu potensial a datblygu fel dysgwyr annibynnol mewn cymuned ddwyieithog gefnogol, gynhwysol a chreadigol". Ein nod yw sicrhau bod gwybodaeth a deunyddiau dysgu yn hygyrch i bob myfyriwr. Bydd hyn, ynghyd â'r cymorth rhagorol yr ydym eisoes yn ei roi i fyfyrwyr, yn sicrhau y gall myfyrwyr fanteisio i'r eithaf ar eu haddysg yma.

Amcanion

- **Gwneud hi'n haws i fyfyrwyr ddysgu.**

Bydd sicrhau bod gwybodaeth a deunyddiau addysgu yn hygyrch yn gwneud bywyd yn haws i fyfyrwyr ag anableddau a nam, gan wella eu profiad yn y Brifysgol.

- **Gwella enw da'r Brifysgol**

Gellir gwella ymhellach ar yr enw da sydd eisoes gennym fel sefydliad cynhwysol, gyda lefelau uchel o foddhad myfyrwyr, drwy sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio ein gwefannau a'n systemau ar y we.

- **Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr a ddenir.**

Bydd gwneud ein gwefannau a'n systemau ar y we yn hygyrch i bawb yn rhoi hyder i fyfyrwyr ag anableddau neu nam ddewis astudio gyda ni.

- **Bodloni ein gofynion cydymffurfiaeth.**

Fel corff sector cyhoeddus, disgwylir inni gydymffurfio â [Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sectorau Cyhoeddus \(Gwefannau a Chymwysiadau Symudol\) \(Rhif 2\) 2018](#).

Mesur Llwyddiant

Nod y Strategaeth Hygyrchedd Digidol yw gwella a chynnal hygyrchedd ein gwefannau a'n systemau ar y we. Byddwn yn mesur llwyddiant drwy archwilio ein gwefannau a'n systemau ar y we yn rheolaidd er mwyn asesu eu lefelau hygyrchedd.